

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 17eg Ionawr 2017

Presennol -Hefin Edwards Cadeirydd, Menai Hughes, Prys Ellis, John D Jones, Guto G Jones, Einion Edwards, Ffuon Williams, Helen Ellis, Ieuan Jones, Cyng Peter Lewis Cyng BS Conwy, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau -
Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29ain Dachwedd 2016.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Croesawyd SCHG Aimie Clayton i'r cyfarfod a chytunodd i wneud ymholiadau ynglŷn â'r canllawiau ar gyfer gosod camerâu cylch agos.

Adroddodd hefyd ynglŷn ar digwyddiadau canlynol yn y gymuned:

[a] Ymddwyn gwrthgymdeithasol x 4

[b]Lladrata x1

[c] Ymddwyn yn amheus x 1

[d] Damwain ffordd x 1

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Nodwyd ateb gan Elwyn Williams [Cyngor BS Conwy] yn amlinellu nad oedd gan y Cyngor Sir gyllideb ar gyfer gwneud gwelliannau i'r llwybr. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ceisio cymorth gan Gymdeithas y Cerddwyr.

[1.2]Tai Gwag/Cartrefi Conwy.

Croesawyd Ms Ceri Twist a Mr Jeff Evans i'r cyfarfod a chafwyd trafodaeth ynglŷn â pholisi'r cwmni wrth osod tai gwag yn y gymuned. Yn arbennig eu bwriad i ostwng yr oed ar gyfer bod yn denant o 55 i 40 mlwydd oed.

Penderfynwyd cwrdd eto yn y dyfodol . Y clerc i gysylltu gyda Mr Emyr Hughes

[1.3] Dwr Cymru/ Byngalo'r Alwen/ Lluniau/Arteffactau

Dywedodd y clerc nad oedd Mrs Arfona Evans wedi cysylltu mhellach.

[1.4] Warden y Ganolfan/Camerâu Cylch Agos

Cadarnhaodd y Cyng Peter Lewis ei fod wedi cysylltu gyda Mrs Rhian Ellis gyda gwybodaeth ynglŷn a ffynonellau ar gyfer grant

[1.5] Llythyr Ms Helen Williams/ Cais i brynu darn o Gae Chwarae, Cae Llwyd

Dywedodd y clerc nad oedd gair pellach gan Ms Helen Williams

[1.6] Llwybr o gyferbyn a'r Ysgol i groesffordd Cefn-Brith

Nodwyd bod y mater yn parhau.

Y brif Agenda

[1.8]Cau Iard y Cyngor yn y Pentref

Dywedodd y Cyng Peter Lewis bod y Cyngor Sir yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ynglyn a chau'r iard.

[1.9] Gwasanaeth Sul y Cofio

Cadarnhaodd y Cyng Peter Lewis y bydd y gwasanaeth yn ddwyieithog yn y dyfodol.

[2] Materion Cynllunio

Codi 4 annedd fforddiadwy ayb. Tir yng Nghae Ffynnon, Ffordd Brenig, Cerrig-y-Drudion' Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.1] Blwch Ffon BT

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i gael gwared ar blwch ffon yn y llan.

[2.2] Band Eang Fibre Optic

Y clerc i wneud ymholiadau tybed fydd y gwasanaeth ar gael ym Mhentrellyncymer.

[2.3] Presept

Gan ystyried efallai y bydd etholiad ym mis Mai a hefyd y gefnogaeth ariannol ar gyfer cynnal y llyfrgell, penderfynwyd gosod presept o £6,000.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18

[2.4] Ymgynghoriad Ceisiadau Cynllunio -Awdurdod Lleol

Nodwyd na fyddai'r Cyngor Sir yn parhau i anfon dogfennau ymgynghori cynllunio o Ebrill 1af ymlaen.

[2.5] Golau stryd Maes Aled

Dywedodd y clerc iddo gael cais am olau ychwanegol ar y llwybr o Faes Aled sydd yn arwain i gefn Maes-y-Llan. Y clerc i anfon cais ymlaen i'r Cyngor Sir.

[2.6] Pale Hall

Eglurodd y clerc nad oedd wedi derbyn ateb i gŵyn y Cyngor ynglyn a chynnwys y triongl EVO yn y daflen a baratowyd ganddynt ar gyfer ymwelwyr.

Cadeirydd_____